

## EVANS, PHILIP (1645 - 1679), offeiriad o Gymdeithas yr Iesu, a merthyr

**Enw:** Philip Evans  
**Dyddiad geni:** 1645  
**Dyddiad marw:** 1679  
**Rhiant:** Winifred Evans (née Morgan)  
**Rhiant:** William Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** offeiriad o Gymdeithas yr Iesu, a merthyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Martin Cleary

Ganwyd yn Sir Fynwy. Ei dad oedd William Evans, a'i fam oedd Winifred Morgan, o bosibl o Lanfihangel Crucornau. Addysgwyd ef yn St. Omer ac ymaelododd â Chymdeithas yr Iesu ar 8 Medi 1665. Ordeiniwyd ef yn 1675, a'i ddanfon i genhadaeth yr Iesiwitiaid yn ne Cymru. Yn ôl y bradwr Edward Turberville ymwelodd â Chastell Powys; ond canolfan ei weithgarwch oedd sir ei enedigaeth a Morgannwg. Bu ar ymweliad â Charles Proger yn Wern-ddu, Llandeilo Gresynni; ac yn ei brawf daeth tystion o Lanfihangel Crucornau a Llangatwg ger Caerllion. Tan yr enw 'Capten Evans' arhosodd gyda Thomas Gunter, Y Fenni, a phregethu yn Gymraeg yn ei gapel yn Cross Street, lle, meddid, yr â cannoedd i'r Offeren, pan na cheir 40 i'r Eglwys' (100's goe to Mass there when not 40 goe to Church.) Ym Morgannwg ymwelodd â'r Pîl a thai Howel Carne (aelod o deulu Nash), a Christopher Turberville yn Y Sger. Daliwyd ef ar 2 Rhagfyr 1678, yn Y Sger, wedi i John Arnold gynnig £50 o wobr am ei ddal, yn y cynnwrf cyffredinol a ganlynod ddadleniadau Titus Oates. Carcharwyd ef yng nghastell Caerdydd gyda'r Tad John Lloyd. Profwyd y ddau offeiriad yn neuadd y sir, ddydd Iau a dydd Gwener, 8 a 9 Mai, 1679, gan y barnwr Owen Wynne, Melai. Condemniwyd hwy i farwolaeth, dan ddeddf 27 Elis. am fod yn offeiriad seminaraid; ond aeth bron dri mis heibio cyn y dienyddio. Yn ystod y tymor hwn caniateid cryn ryddid i'r offeiriad, a ducpwyd rhybudd o'r dienyddiad i'r Tad Evans pan oedd yn chwarae tennis ger Eglwys S. Ioan. Y mae ar gof a chadw ei ebychiad: 'Pa frys sydd? Gadewch i mi orffen fy chwarae yn gyntaf.' A hefyd ei eiriau oddi ar yr ysgol i'r dienyddle: 'Yn wir, dyma'r pulpud gorau i ddyd bregethu ohono'. Dychwelodd i'r carchar a chanu gyda'r tannau i'w gyfeiliant ei hun ar y delyn, fel y dengys argrafflen gyfoes. Ysgrifennodd lythyr, a argreffir yn Foley, at ei chwaer Catherine, a oedd yn lleian las ym Mharis. Crogwyd, diberfeddwyd a chwarterwyd ef ar 22 Gorffennaf 1679, oed 34. Y mae darlun ohono yn Foley; ac yn 1929, lluniwyd ffenestr liw i goffáu'r ddau offeiriad yn Eglwys S. Pedr, Caerdydd, i ddathlu'u gwynfydedigo gan y Pab.

### Awdur

John Martin Cleary

### Ffynonellau

Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, V, 882-91

Joseph Gillow, *A Literary and Biographical History or Biographical Dictionary of the English Catholics* (c.1895â€“1902) II, 186-7

Challoner, *Memoirs of Missionary Priests, &c; and of other Catholics, &c; that have suffered death in England, on religious accounts, from &c; 1577 to 1684*

*Oxford Dictionary of National Biography*

*South Wales Record Society* I, 194

*Catholic Record Society* VIII, 392 and XLVII, 139-41

*Cardiff Records* (1898â€“1911) II, 175-77 and IV, 155-59

*St. Peter's Mag.*, 1923

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 21124726

Wikidata: Q2884061

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gyd'nabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Cleary, J. M., (1970). EVANS, PHILIP (1645 - 1679), offeiriad o Gymdeithas yr Iesu, a merthyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-EVAN-PHI-1645>

Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld ari  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government